

CYFFES FFYDD

13. Am y cyfamod tragwyddol o ras.

Y mae cyfamod, trefniad, a sefydliad grasol, hollol a sicr, wedi ei wneuthur gan Dduw, er tragwyddoldeb, ym mherthynas i iachawdwriaeth dynion (a). Y pleidiau yn y cyfamod hwn yw y Personau bendigedig yn y Duwdod, sef y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân (b): y Tad yn sefyll dros anrhydedd a gogoniant priodoliaethau a llywodraeth Duw, a ddirmygid ac a ddianrhydeddid gan ddyn (c) -y Mab, fel Pencyfamodwr a Machniydd mawr, yn sefyll dros, ac yn cynrychioli y rhai oll o blant dynion a etholwyd, ac a gredant ynddo er eu hiachawdwriaeth (d) -a'r Ysbryd yn ymrwymo i weithredu yn yr etholedigion fel Ysbryd Crist, yn Sancteiddydd a Diddanydd (e). Amodau y cyfamod hwn o du Crist, Machniydd ei bobl, oedd cyflawni ar eu rhan hwy yr hyn oll oedd yn ddyledus arnynt i Dduw a'i

gyfraith (f). Y mae addewidion mawr iawn a gwerthfawr wedi cael eu rhoi gan y Tad yn y Cyfamod i Grist a'i had; a swm cyflawn yr holl addewidion i'r Machniydd, ag sydd i'w cyflawni ar ei had cyfamodol, yw bywyd tragwyddol (g).

Y mae Duw yn ei amser ei hun, trwy ei efengyl, yn amlygu y cyfamod hwn i'w holl bobl, ac yn eu dwyn hwythau i'w gymeradwyo, i ymaflyd ynddo, ac felly'n eu dwyn i rwym y cyfamod, a'u gwneud hwy yn eu personau eu hunain yn feddiannol ar ras, doniau, a breintiau y cyfamod hwn (h). Amlygwyd y cyfamod gras yn raddol, a than amryw oruchwyliaethau; ond yr oruchwyliaeth efengylaidd yw y ddiwethaf a'r ogoneddusaf (i).

Y mae y cyfamod hwn yn rhad, sicr, sanctaidd, manteisiol, a thragwyddol (j).

13. Of the Eternal Covenant of Grace.

God from eternity made a gracious covenant or plan, ordered in all things and sure, for the salvation of men (a). The parties to this covenant are the blessed Persons of the Trinity – the Father, Son, and the Holy Ghost (b). The Father represents the honour and the glory of God’s attributes and government, contemned and dishonoured by man (c); the Son, as their covenant Head and mighty Surety, represents and stands in the stead of all those of the human race who are elected and believe in him unto salvation (d); the Holy Ghost engages to work in the elect as the Spirit of Christ, as Sanctifier and Comforter (e). The conditions of this covenant on the part of Christ, the Surety of his people, were that he should perform on their behalf all that was owing from them to God and his law (f). Exceeding great and precious promises have been given by the Father in the covenant to Christ and his seed; the entire sum of all the promises which were given to the Surety, and will be fulfilled to his covenant seed, is eternal life (g).

God in his own time reveals this covenant through the gospel to all his people, and, by bringing them to approve and embrace it, brings them into the bond of the covenant, and into actual possession in their own persons of its grace, gifts, and privileges (h). The covenant of grace was revealed by degrees, and under various dispensations; but the gospel dispensation is the last and most glorious (i). This covenant is free, sure, holy, advantageous, and eternal (j).

- (a) Salm/Psa. 40:6-8; Eseia/Isa. 49:1-6; Eseia/Isa. 53:10-12; Ioan/John 17:4-5.
- (b) Salm/ Psa. 89:3; Sech./Zech. 6:13.
- (c) Ioan/John 10:18, 12:49, 14:31, 18:11; Heb. 2:10, 9:15-17, 10:5-10; Sech./Zech. 13:7; Eseia/Isa. 53:10-12.
- (d) Salm/ Psa. 40:6-8; Heb. 7:22, 10:5-10; Ioan/John 6:39, 17:2,12; Eff./Eph. 1:22,23, 5:23; 1 Cor. 15:21,22, 45-49.
- (e) Eseia/Isa. 59:21; Heb. 2:4; Ioan/John 7:39, 14:16,26, 15:26, 16:8-9; 1 Thes. 1:5,6; 2 Cor. 3:6-8; Gal. 4:6.
- (f) Eseia/Isa. 53:5,6,10,11; Salm/Psa. 40:6-8; Rhuf./Rom. 5:6, 8:3,4; 2 Cor. 5:21; Gal. 4:4,5; Math./Matt. 20:28; 1 Pedr/1 Peter 2:24.
- (g) Salm/Psa. 110:1-3; Ioan/John 6:39-44, 17:2,4,5; Eseia/Isa. 49:5,8, 53:10,12; Actau/Acts 2:33-36; Phil. 2:6-8; Luc/Luke 24:26; Tit. 1:2; Rhuf./Rom. 5:10, 8:17,33,34; 2 Tim. 1:9; 1 Cor. 1:30; 2 Cor. 1:20.
- (h) Esec./Ezek. 20:37, 36:24-28; Sech./Zech. 9:11; Eseia/Isa. 49:24,25; Rhuf./Rom. 8:1,17,33; Heb. 8:8,10; Jer. 31:31-40; 2 Tim 1:1; Ioan/John 17:24; Eff./Eph. 2:8; 1 Cor. 3:22,23; 1 Ioan/1 John 2:25.
- (i) Heb. 1:1,2, 4:2, 8:8, 12:28; 2 Cor. 3:6-18.
- (j) Hos. 14:4; Eseia/ Isa. 54:10; Luc/Luke 1:72; 1 Cor. 3:21-23; Sech./Zech. 8:8; Heb. 9:12; 2 Sam. 23:5.